




swyddfa'r
dyfarnwr
annibynnol

'i fyfyrwyr mewn addysg uwch'

Agwedd yr OIA at unioni a gwneud iawn



www.oiahe.org.uk

Cynnwys

Cyflwyniad	4
Beth mae'r OIA'n ei wneud?	5
Cydymffurfio ag Argymhellion yr OIA	6
Awgrymiadau a Sylwadau	6
Agwedd yr OIA at Unioni	7
Unioni Ymarferol	7
Ymddiheuro	10
Unioni Ariannol	12
Iawndal am ofid ac anghyfleustra	13



Cyflwyniad

Mae Swyddfa Dyfarnwr Annibynnol Addysg Uwch (OIA) yn darparu Cynllun annibynnol a thryloyw o dan Ddeddf Addysg Uwch 2004. Byddwn yn adolygu cwynion myfyrwyr yn erbyn sefydliadau unigol.

Ceir gwybodaeth bellach am yr OIA ar ein gwefan **www.oiahe.org.uk** lle cewch hefyd restr o'r holl sefydliadau addysg uwch sy'n rhan o'r Cynllun **<http://www.oiahe.org.uk/about-us/list-of-universities.aspx>**.

Er rhwyddineb cyfeirio, defnyddiwn y gair 'prifysgol' trwy'r daflen hon i gynnwys pob sefydliad sy'n cymryd rhan. Mae 'myfyriwr' yn cyfeirio at unigolyn y mae ei gŵyn neu ei chŵyn yn gymwys i'w hadolygu o dan Reolau'r OIA.

Mae'r daflen hon yn disgrifio agwedd gyffredinol yr OIA at unioni a gwneud iawn pan fyddwn wedi cael bod Cyfiawnhad neu Gyfiawnhad Rhannol i gŵyn. Cyfeiriwch hefyd os gwelwch yn dda at Reolau Cynllun yr OIA: **<http://www.oiahe.org.uk/decisions/leaflets.aspx>**. Os bydd gwrthdaro rhwng y daflen hon a Rheolau'r Cynllun, y Rheolau a fydd drechaf.

Gallwn ddarparu ein llenyddiaeth mewn gwahanol ddiwyg. Cysylltwch â ni os gwelwch yn dda os bydd gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â hyn neu ynglŷn â'n proses gwyno ar **enquiries@oiahe.org.uk** neu **0118 959 9813**.

Beth mae'r OIA'n ei wneud?

Bydd yr OIA'n adolygu cwynion gan fyfyrwyr ynglŷn â 'gweithredoedd neu hepgoriadau' prifysgol ac yn penderfynu a oes Cyfiawnhad, Cyfiawnhad Rhannol neu Ddim Cyfiawnhad iddynt. Cyn cyflwyno cwyn i'r OIA, rhaid i fyfyrwyr yn gyntaf gwblhau prosesau mewnol y brifysgol a chael 'Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau'.

Ein ffordd arferol o adolygu cwynion yw ystyried a wnaeth y brifysgol gymhwyso ei rheoliadau a dilyn ei gweithdrefnau yn briodol ai peidio, ac a oedd penderfyniad a wnaed gan y brifysgol yn rhesymol yn yr holl amgylchiadau ai peidio (**Rheol 6.4, Rheolau Cynllun yr OIA**). Byddwn hefyd yn rhoi ystyriaeth i unrhyw gamau a gymerwyd gan y brifysgol i ddatrys pryderon y myfyriwr.

Pan fyddwn yn credu bod Cyfiawnhad neu Gyfiawnhad Rhannol i gŵyn, bydd ein Penderfyniadau fel rheol yn cynnwys Argymhellion. Gallwn wneud amrywiaeth eang o Argymhellion. Maent yn cynnwys Argymhellion sy'n anelu at gael iawn i'r myfyriwr unigol yn ogystal ag Argymhellion Arfer Dda sydd, er enghraifft, yn gofyn i'r brifysgol gymryd camau i wella gweithdrefnau, adolygu rheoliadau annheg neu roi hyfforddiant i staff.

Cyn i Benderfyniad Terfynol yr OIA gael ei ryddhau, bydd y ddwy ochr yn cael cyfle i gyflwyno sylwadau ar ymarferoldeb unrhyw Argymhellion arfaethedig.

Cydymffurfio ag Argymhellion yr OIA

Mae'r OIA'n disgwyl i brifysgolion gydymffurfio â'n Hargymhellion yn llawn ac yn ddiymdroi. Fel rheol, cynhwysir amserlen ar gyfer cydymffurfio â'r Argymhelliad yn ein Penderfyniad, a fydd hefyd yn nodi'r dystiolaeth y gofynnir i'r brifysgol ei chynhyrchu er mwyn bodloni'r OIA ei bod wedi cydymffurfio. Caiff cydymffurfio ei fonitro'n ofalus gan yr OIA ac, yn ôl ein Rheolau, mae'n ofynnol i'r Dyfarnwr Annibynnol adrodd am unrhyw ddiffyg cydymffurfio gan brifysgol wrth Fwrdd yr OIA a rhoi cyhoeddusrwydd iddo yn Adroddiad Blynyddol y Dyfarnwr Annibynnol.

Awgrymiadau a Sylwadau

Bydd yr OIA weithiau hefyd yn gwneud Awgrymiadau neu Sylwadau nad ydynt yn Argymhelliad llawn. Gall y rhain gyfeirio at fethu â dilyn arferion da, a chynnig atebion posibl heb ofyn i brifysgol adrodd yn ôl yn ffurfiol am gydymffurfio, er y byddwn fel rheol yn gofyn i brifysgol roi gwybod inni pa gamau a gymerwyd, os cymerwyd camau o gwbl. Fel rheol, defnyddir Awgrymiadau a Sylwadau mewn penderfyniadau sy'n cael nad oes Cyfiawnhad i gwyn a/neu lle na fu unrhyw wir anfantais i'r myfyriwr o ganlyniad i'r weithred neu'r hepgoriad y cwynir yn ei gylch.

Agwedd yr OIA at Unioni

Nid oes cyfyngiad ar y math o unioni y gall yr OIA ei ddarparu a dylai myfyrwyr nodi'n glir ar Ffurflen Gwyno'r OIA, neu mewn gohebiaeth â'r OIA, pa fath o unioni y maent yn ei geisio, hyd yn oed os nad yw'r ddogfen hon yn crybwyll y math hwnnw. Byddwn yn ystyried unrhyw unioni rhesymol a gynigir gan naill ai'r myfyriwr neu'r brifysgol; er hynny, mae'n bwysig i fyfyrwyr fod yn realistig ynglŷn â'r hyn y gofynnant amdano. Ein nod yw darparu unioni ymarferol lle bynnag y bo modd; dim ond os nad oes math arall o unioni ar gael, neu os credir ei fod yn annigonol, yr ystyrir unioni ariannol. Nod yr unioni a ddarparwn yw helpu i ddatrys gofidiau myfyrwyr, nid cosbi prifysgol neu staff prifysgol.

Unioni Ymarferol

Pan fyddwn yn argymhell bod y brifysgol yn gweithredu mewn rhyw ffordd er budd y myfyriwr, byddwn yn ceisio sicrhau, lle bynnag y bo modd, bod yr unioni a gynigir yn dychwelyd y myfyriwr i'r safle y byddai wedi bod ynddo pe na bai'r amgylchiadau wedi digwydd. Gall hyn olygu y byddwn yn argymhell unioni ymarferol ar y cyd ag un neu ragor o'r mathau eraill o unioni a amlinellir isod. Er enghraifft, efallai y byddwn yn argymhell bod y myfyriwr yn cael cyfle arall i gael ei asesu, efallai gyda chymorth ychwanegol, neu efallai y gofynnwn i'r brifysgol gynnal gwrandawriad arall o banel apêl. Mewn achosion priodol, efallai y byddwn hefyd yn argymhell ail-farcio gwaith myfyriwr. Fodd bynnag, o dan ein Rheolau, ni allwn wneud Argymhellion yn gofyn i brifysgol newid ei barn academaidd (gweler y bocs ar dudalen 9).

Ni fyddwn yn gwneud Argymhellion sy'n cosbi, na rhai sy'n gofyn i'r brifysgol dalu cosb neu ddirwy. Anelir ein Hargymhellion at y brifysgol, ac felly ni fyddwn fel rheol yn argymell y dylai aelod o'r staff wneud rhywbeth nac ymddiheuro, na bod prifysgol yn cymryd camau mewn perthynas ag aelod o'r staff.

Gall yr OIA:

- Gyfeirio mater yn ôl at brifysgol i'w ailystyried.
- Gofyn i brifysgol gael yr achrediad a addawyd ar gyfer cwrs.
- Gofyn i brifysgol ddarparu cyfle asesu newydd.
- Gofyn am ail-farcio gwaith.
- Argymell adolygiad o bolisiâu/gweithdrefnau a hyfforddiant staff prifysgol.
- Gofyn i brifysgol ymddiheuro i fyfyrwr.
- Rhoi cyfle i fyfyrwr ddychwelyd i gwrs.
- Cynnig cyfryngu rhwng prifysgol a myfyrwr.

Ni allwn:

- Ymyrryd â barn academiaidd prifysgol.

Ni fyddwn fel rheol:

- Yn gwneud Argymhellion sy'n cosbi.
- Yn gwneud Argymhellion sy'n cyfeirio at aelod arbennig o staff.

Beth yw barn academiaidd a pham y mae'n effeithio ar yr unioni yr wyf yn ei geisio?

Yn ôl ei rheolau, ni all yr OIA edrych ar faterion yn ymwneud â barn academiaidd.

Mae barn academiaidd yn derm a geir yn Rhan 2 o Ddeddf Addysg Uwch 2004, ac felly mater i'r llysoedd fydd ei ddehongli yn y pen draw. Er hynny, yn ein barn ni, barn yw a roddir ar fater na fydd barn unrhyw un ac eithrio arbenigwr academiaidd yn ei gylch yn ddigon; ac felly, er enghraifft, bydd barn ynglŷn ag asesiad, dosbarth gradd, methodoleg ymchwil neu gynnwys/canlyniadau cwrs fel rheol yn farn academiaidd. Credwn, fodd bynnag, nad yw'r meysydd canlynol yn ymwneud â barn academiaidd: penderfyniadau ynglŷn â thegwch gweithdrefnau, a ydynt wedi eu dehongli'n gywir, beth yw'r ffeithiau, sut mae prifysgol wedi cyfathrebu â'r myfyriwr, a fynegwyd barn y tu allan i'r meysydd cymhwysedd, y ffordd yr ystyriwyd tystiolaeth ac a oes tystiolaeth o ragfarn neu gamweinyddu. At hynny, ni fyddem fel rheol yn ymyrryd â barn broffesiynol a wnaed, er enghraifft, gan staff mewn lleoliad. Mae penderfyniadau ynghylch a yw gwaith myfyriwr yn cynnwys llên-ladrad, neu a yw myfyriwr yn addas i ymarfer mewn proffesiwn, yn faterion o farn academiaidd neu broffesiynol, ond rhaid i'r farn honno fod yn seiliedig ar dystiolaeth.

Ni fyddai'r OIA prin byth, os byth, yn argymhell bod prifysgol yn newid dosbarth gradd myfyriwr. Ni allwn ychwaith ail-farcio gwaith na rhoi sylwadau ar y marciau a roddwyd. Er hynny, os cawn fod Cyfiawnhad neu Gyfiawnhad Rhannol i'r gŵyn, a'n bod yn credu ei bod yn briodol gwneud hynny, gallwn argymhell y dylai prifysgol ailystyried materion o'r fath.

Ymddiheuro

Lle bo hynny'n briodol, byddwn yn argymell bod y brifysgol yn cynnig ymddiheuriad neu esboniad i'r myfyriwr am y diffygion a nodwyd gennym yn ein penderfyniad.

Byddwn fel rheol yn argymell ymddiheuriad pan fyddwn wedi cadarnhau cwyn, a'r myfyriwr wedi gofyn am hynny. Efallai y byddwn hefyd yn argymell ymddiheuriad pan na fydd myfyriwr wedi gofyn yn benodol am hynny ond pan gredwn fod yr amgylchiadau'n gwneud hynny'n briodol (er enghraifft, pan gredwn y gallai helpu i adfer perthynas sy'n parhau).

Mae'r OIA'n sylweddoli mai pan roddir ymddiheuriadau'n wirfoddol ac yn gynnar ym mhroses gŵynion fewnol y brifysgol y maent fwyaf effeithiol. Gall gwybod pryd y gallai ymddiheuriad ddatrys cwyn yn llwyddiannus roi canlyniad boddhaol yn ddiymdroi i'r myfyriwr ac i'r brifysgol.

Er mwyn i ymddiheuriad fod yn ystyrion dylai:

- Gael ei roi yn ddiymdroi.
- Cydnabod y diffyg.
- Derbyn cyfrifoldeb amdano.
- Egluro'n glir pam y digwyddodd y diffyg.
- Mynegi edifeirwch diffuant am unrhyw anghyfiawnder neu galedi.
- Nodi'r camau a gymerwyd i unioni'r materion y cwynwyd yn eu cylch.

Yng nghyd-destun Argymhelliad gan yr OIA, nid yw ymddiheuriad yn gyfystyr â chfyfaddef atebolrwydd yn yr ystyr gyfreithiol ac nid yw ychwaith yn arwydd o wendid. Argymhellir ymddiheuriadau yn hytrach fel y gall prifysgol gydnabod mater a chymryd cyfrifoldeb drosto er mwyn tawelu sefyllfa anodd a sicrhau myfyrwyr bod eu pryderon wedi eu clywed.



Unioni Ariannol

Nod Argymhellion yr OIA yw dychwelyd myfyrwyr i'r sefyllfa yr oeddent ynddi cyn yr amgylchiadau a ddisgrifir yn eu cwyn. Mewn achosion priodol, gall yr OIA hefyd argymell taliad ariannol. Fel rheol, dim ond pan nad oes mathau eraill o unioni ar gael, neu pan fônt yn amhriodol, neu pan na fyddant yn ddigon i wneud iawn â'r myfyriwr y bydd taliad o'r fath yn cael ei argymell. Mae Argymhellion yr OIA ynghylch iawndal ariannol yn cynrychioli ein barn ynglŷn â beth y credwn sy'n deg a rhesymol o dan holl amgylchiadau cwyn myfyriwr unigol. Wrth ystyried a yw iawndal ariannol yn briodol, gall yr OIA hefyd ystyried:

- Treuliau y bu'n rhaid i'r myfyriwr eu talu neu arian a gollodd o ganlyniad i unrhyw ddiffyg ar ran y brifysgol a nodwyd gan yr OIA.
- Unrhyw gamau rhesymol a gymerwyd neu nas cymerwyd gan y myfyriwr a/neu'r brifysgol i leihau effaith y materion sy'n deillio o'r gŵyn.
- Pa un a yw'r brifysgol eisoes wedi gwneud cynnig rhesymol i ddatrys y gŵyn.
- Unrhyw 'golli cyfle', e.e. i gwblhau lleoliad neu gwrs astudiaeth, pan fo hynny'n deillio o weithred neu hepgoriad gan y brifysgol.
- Iawndaliadau a ddyfarnwyd yn flaenorol gan yr OIA, lle bo hynny'n berthnasol.
- Dyfarniadau a wnaed gan gyrff gwneud penderfyniadau perthnasol eraill.

Prawf o Golled

Mewn achosion priodol, bydd yr OIA yn gofyn i fyfyrwyr gyflwyno prawf dogfennol o'r wir golled a gawsant.

Iawndal am ofid ac anghyfleustra

Gall yr OIA hefyd ystyried a yw'n briodol argymhell taliad am ofid ac anghyfleustra. Gellir argymhell taliad o'r fath yn ychwanegol at fathau eraill o unioni ymarferol neu ariannol, neu yn eu lle. Gall hynny fod, er enghraifft, pan fo myfyriwr wedi dioddef colled neu niwed o ganlyniad i oedi ar ran y brifysgol, neu pan fo'r brifysgol wedi cael cyfle i ddatrys cwyn ond wedi methu â manteisio ar y cyfle hwnnw.

Rydym wedi datblygu rhai bandiau dangosol yn gosod allan ein hagwedd gyffredinol at y math hwn o iawndal. Nid bwriad y bandiau yw gosod rheolau diwyro ynglŷn â faint fydd yn briodol pan fydd yr OIA'n argymhell taliadau am ofid ac anghyfleustra.

Bydd yr OIA hefyd yn ystyried effaith gweithredoedd ac ymddygiad y myfyriwr ei hun wrth asesu iawndal am ofid ac anghyfleustra. Gall hyn gynnwys ystyried y materion canlynol:

- Cyfraniad y myfyriwr at y materion sydd wedi arwain at y gŵyn.
- A yw'r myfyriwr wedi gwrthod yn afresymol ddewis a oedd ar gael neu a gynigiwyd gan y brifysgol.
- A yw'n bosibl bod yr oedi cyn datrys mater wedi'i achosi'n rhannol gan y myfyriwr.

Ffactorau y mae'r OIA yn eu hystyried wrth benderfynu a fydd yn argymhell taliad am ofid ac anghyfleustra a pha fand sy'n gymwys

- Faint o anghyfleustra a fu i'r myfyriwr.
- Difrifoldeb unrhyw ofid a natur unrhyw dystiolaeth ategol.
- A gododd y myfyriwr fater brifo teimladau/loes neu ofid wrth gyflwyno'r gŵyn/apêl neu yn ystod y broses fewnol.
- Dros faint o amser y digwyddodd y broblem – po hiraf y broses, mwyaf y dyfarniad posibl.
- A fu oedi neu fethiant i ymateb i'r lefel o bwysu a fu ar ran y myfyriwr a pha mor rhesymol fu ymateb y brifysgol i'r pwysu.
- Nifer a natur gweithredoedd neu hepgoriadau'r brifysgol a arweiniodd at ystyried bod Cyfiawnhad neu Gyfiawnhad Rhannol i'r gŵyn.
- A yw'r brifysgol wedi cymryd camau i geisio ymdrin ag unrhyw wir ofid ac anghyfleustra neu unrhyw ofid ac anghyfleustra posibl i'r myfyriwr, neu i'w lleihau.
- A yw'r ffordd y mae'r brifysgol wedi trin pryderon y myfyriwr wedi peri mwy o ofid ac anghyfleustra i'r myfyriwr, yn ychwanegol at yr hyn a fyddai'n cael ei achosi'n arferol wrth gyflwyno cwyn neu apêl.
- A ddylai elfen o iawndal fod yn daladwy i gydnabod yr amser, y drafferth a'r mân gostau a achoswyd i'r myfyriwr wrth fynd ar drywydd y gŵyn. Er enghraifft, pan fo'r brifysgol wedi cael cyfle i ddatrys cwyn ond heb fanteisio arno, neu pan ddatgelir gwybodaeth yn ystod adolygiad gan yr OIA na threfnwyd ei bod ar gael i'r myfyriwr cyn hynny ac a allai, petasai'n hysbys, fod wedi datrys cwyn yn gynharach.

Bandiau Dangosol ar gyfer dyfarniadau'r OIA am ofid ac anghyfleustra

Lefel A	Y taliad a argymhellir fel rheol hyd at £500
Lefel B	Y taliad a argymhellir fel rheol rhwng £500 a £750
Lefel C	Y taliad a argymhellir fel rheol rhwng £750 a £1,500
Lefel D	Y taliad a argymhellir fel rheol dros £1,500

Ffioedd cyfreithiol

Ni fyddwn fel rheol yn argymhell bod prifysgol yn cyfrannu at gostau cyfreithiol myfyriwr yn gysylltiedig â chyflwyno cwyn i'r OIA. Y rheswm am hynny yw y bwriedir i Gynllun yr OIA fod yn ddewis anffurfiol yn hytrach na'r llysoedd, ac nad oes angen i fyfyriwr fod â chynrychiolydd cyfreithiol er mwyn cyflwyno cwyn. Os yw gweithdrefnau prifysgol yn rhy gymhleth a bod myfyriwr wedi gorfod ceisio cyngor/cymorth cyfreithiol i dramwyo drwy'r gweithdrefnau hynny, efallai y byddwn yn argymhell bod y brifysgol yn digolledu'r myfyriwr am rai o'r costau hyn neu am y cyfan ohonynt.

A all y brifysgol osod dyledion myfyriwr yn erbyn iawndal a argymhellir gan yr OIA?

Weithiau, mae ar y myfyriwr ffioedd dysgu i'r brifysgol, neu mae arno neu arni ddyled ariannol arall i'r brifysgol. Os yw'r myfyriwr wedi derbyn bod ffioedd dysgu yn ddyledus, neu os yw'r OIA wedi barnu eu bod, yna gall yn wir fod yn rhesymol i'r brifysgol dynnu swm y ffioedd sy'n ddyledus o unrhyw iawndal a argymhellir gan yr OIA. Ond os yw myfyriwr yn gwadu'r ddyled, neu os yw'n gysylltiedig â rhywbeth sydd heb unrhyw gysylltiad o gwbl â chŵyn y myfyriwr i'r OIA, yna fel rheol nid yw'n briodol gwneud hynny.

Caiff y brifysgol gyfle i ofyn a all osod dyled yn erbyn iawndal a argymhellir wrth gyflwyno sylwadau ar ymarferoldeb yr argymhellion a wnaed yn y Penderfyniad Ffurfiol Drafft neu'r Penderfyniad Rhagarweiniol. Os yw hynny'n briodol, gall yr OIA ofyn wedyn i'r myfyriwr a oes anghydfod ynglŷn â'r ddyled ai peidio.

Achos enghreifftiol

Mae'r achos canlynol yn dangos y mathau o unioni y gallwn eu cynnig a sut y caiff agwedd yr OIA at unioni ei rhoi ar waith yn ymarferol. Mae rhagor o enghreifftiau ar ein gwefan o'r mathau o unioni y gallwn eu cynnig.

Cyflwynodd S gŵyn am ddarpariaeth ac achrediad cwrs ar raglen beirianeg i israddedigion. Ar ôl cwblhau gweithdrefnau cwyno mewnol y brifysgol cyflwynodd S gŵyn i'r OIA fel a ganlyn:

- Ei fod wedi'i gamarwain ynglŷn ag achrediad proffesiynol y Rhaglen a bod y brifysgol wedi methu â gweithredu'n ddiymdroi i sicrhau achrediad pan sylweddolwyd nad oedd y cwrs yn un achrededig.
- Bod y brifysgol wedi cam-gyfleu cynnwys ymarferol blynyddoedd 2 a 3 y Rhaglen ac yn enwedig y cyfleoedd a oedd ar gael iddo mewn perthynas â phrosiect car cit ac adeiladu a gweithredu car rasio. Cwynodd hefyd am yr offer a oedd ar gael.
- Bod y brifysgol wedi methu ag ymchwilio i'w gŵyn yn ddigon trwyadl a manwl.
- Bod y ffaith bod y brifysgol wedi gwrthod caniatáu i'w dad ddod gydag ef i wrandawriad y Panel Adolygu Cwynion yn afresymol ac wedi achosi annhegwch ac oedi.

Barnodd yr OIA nad oedd y brifysgol wedi cymryd digon o gamau yn ddigon buan i ymdrin â difrifoldeb y gŵyn a'r effaith ar S. Ar ddechrau'r broses gŵynion, roedd y brifysgol wedi gwadu bod y cwrs wedi'i hysbysebu fel cwrs achrededig. Roedd hynny'n golygu bod y brifysgol wedi colli cyfle pwysig i ymdrin â'r gŵyn. Er iddi gymryd camau yn ddiweddarach i sicrhau achrediad, nid oedd hynny wedi'i gwblhau erbyn i'r Panel Adolygu Cwynion gwrdd.

Yn ystod y cyfnod hwnnw roedd S wedi colli cyfle i wneud cais fel unigolyn graddedig newydd am swyddi a oedd yn gofyn am radd achrededig.

Daeth yr OIA i'r casgliad hefyd bod peth o gynnwys y cwrs a hysbysebwyd wedi'i gam-gyfleu a/neu heb ei gyflwyno, ac na lwyddwyd i ymdrin â'r agwedd hon ar y gŵyn yn fanwl. Roedd hefyd ddiffyg eglurder ym mhroses gŵynion y brifysgol ynglŷn ag a oedd hawl i rieni gyflwyno cwynion ar ran myfyrwyr.

Ar ôl trafod â thad S yn ystod y gŵyn, yn amgylchiadau arbennig y gŵyn hon roedd hi'n annheg gwrthod gadael iddo fod yn bresennol yn y Panel Adolygu Cwynion.

Daeth yr OIA i'r casgliad bod Cyfiawnhad i bob un o gŵynion S ac argymhellodd y dylai'r brifysgol gynnig taliad o £11,750 i S:

- £6,000 mewn perthynas â'r cam-gyfleu cychwynnol ar statws o ran achrediad a'r colli cyfle i gael swydd i rywun ag achrediad am 12 mis ar ôl graddio a'r oedi cyn symud ymlaen â gyrfa mewn peirianeg. Rhoddodd yr OIA ystyriaeth i'r canlynol:
 - Roedd proffiliau'r sector yn dangos amcangyfrif o gyflog person graddedig yn y maes hwn o £16,000 – £21,000 y flwyddyn.
 - Ar adeg Penderfyniad Ffurfiol yr OIA roedd gan S swydd ran amser mewn manwerthu yn ennill £7,500, ac nid oedd yn ceisio dilyn gyrfa mewn peirianeg.
- £5,000 mewn perthynas â methu â chyflwyno rhai o gydrannau Blynyddoedd 2 a 3 y Rhaglen fel y'u hysbysebwyd, a oedd yn golygu bod contract addysg S yn llai gwerthfawr a'i brofiad fel myfyriwr yn llai cyfoethog.
- £750 mewn perthynas â'r gofid a'r anghyfleustra i S, gan gynnwys yr amser a'r drafferth a olygodd iddo fwrw ymlaen â'i gŵyn, gan gymhwyso Lefel C bandiau iawndal yr OIA.

Awgrymodd yr OIA hefyd y dylai'r brifysgol adolygu geiriad ei gweithdrefn gŵynion fel ei bod yn eglurach pwy a gaiff gwyno.



swyddfa'r
dyfarnwr
annibynnol

'i fyfyrwyr mewn addysg uwch'

Second Floor

Abbey Gate

57-75 Kings Road

Reading RG1 3AB

Ffôn: 0118 959 9813

E-bost: enquiries@oiahe.org.uk

www.oiahe.org.uk

Twitter: <http://twitter.com/oiahe>

Ebrill 2013